Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Amserlen ddiwygiedig i'w hystyried: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Hydref 2022

Ar 4 Gorffennaf 2022, cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn y Senedd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.15, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil Cydgrynhoi at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a fydd yn rhoi Ystyriaeth Gychwynnol iddo.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26C.13, ar amserlen ar gyfer yr Ystyriaeth Gychwynnol a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 16 Rhagfyr 2022.

Ar 4 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar estyniadau i'r terfynau amser adrodd ar gyfer y cyfnod Ystyriaeth Gychwynnol o'r Bil i 23 Rhagfyr 2022, ac o ran y cyfnod Ystyriaeth Fanwl gan Bwyllgor, hyd at 10 Mawrth 2023.